Dyma ddechrau tymor arall. Braf yw cael croesawu'r plant bach canlynol i'n plith: Emma Baylis, Karen Hughes, Rhiannon Hughes, Alistair Maltman, Jason Davies, Mark Jones, Simon Jones a Teresa Walker. Maent wedi setlo i lawr yn dda iawn. Peth hyfryd yw cael dechrau blwyddyn ysgol gyda mwy o blant ar y llyfrau nag a oedd gennym y flwyddyn ddiwethaf.

Yn anffodus mae Mrs Ll. Williams, athrawes y babanod, yn absennol oherwydd aflechyd ond da gennym gael ar ddeall ei bod yn teimlo'n llawer iawn gwell. Buom yn ffodus i gael gwasanaeth Mrs Mary E. Thomas o Ben-y-garn ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi am lanw'r bwlch.

Croeso hefyd i Miss M. Price Jones sydd wedi dyfod atom yn lle Mr I. E. Jones a gafodd ei ddewis yn athro yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Dymunwn y gorau iddi. Mae ein dymuniadau da'n mynd i Mr Jones hefyd. Rhoddodd ef o'i orau i ni'n Ysgol Penrhyn-coch yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Nid arbedodd ddim ar ei hunan. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

Da yw clywed am lwyddiant nifer o'r plant ym myd cerdd. Bu nifer yn llwyddiannus gyda'r piano a gwnaeth Kay Smith waith arbennig o dda gyda'r ffidil yn ogystal. Ymfalchïwn yn eich llwyddiant i gyd. Llongyfarchwn y rhai hynny a fu'n ffodus i ennill gwobrau'n Sioe Arddwriaethol Penrhyn-coch hefyd.

Hyfryd oedd gweld y plant i gyd wedi cystadlu ac yn cael hwyl wrth wneud hynny.

Mae'r bechgyn wrthi'n brysur ymarfer y bêl-droed. Diolchwn i Mr Richie Jenkins am roddi o'i amser i'w hyfforddi. Gwerthfawrogwn ei gymorth yn fawr. Bydd y merched hwythau gyda hyn, yn paratoi ar gyfer ei gemau hoci.

Ychydig ddiwrnodau cyn y gwyliau ymwelodd aelodau'r Ysgol Feithrin leol â'r ysgol. Hyfryd oedd cael croesawu Mrs Evans, Mrs Davies a'r plant i gyd. Cyflwynwyd ganddynt Feibl hardd at wasanaeth yr ysgol a diolchwn iddynt am eu caredigrwydd.

Medi 1982